



10.0 Marchnata a Chyfathrebu

leithoedd a Fformatau hygyrch

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Hygyrchedd
3. Ymgysylltu â'ch cynulleidfa
4. Fformatau
5. Gwybodaeth Bellach

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r hyn y dylai mudiadau ei wneud i sicrhau bod yr wybodaeth y maen nhw'n ei darparu yn hygyrch i bawb.

Hygyrchedd

Ystyr hygyrchedd yw:

- Gwybodaeth y gellir cael gafael ynddi'n hawdd
- Bod yr wybodaeth a gaiff defnyddwyr afael arni yn y fformat y maen nhw'n ei ffafrio
- Gall defnyddwyr terfynol ei deall
- Gall defnyddwyr terfynol ei chyrraedd yn gorfforol



Llun: Fformatau hygyrch

Dyma ddylech anelu ato:

- Dileu rhwystrau i gael gafael ar wybodaeth lle bynnag y bo modd
- Cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol o ran mynediad at wybodaeth
- Sicrhau bod eich holl staff yn ymwybodol o'r dewisiadau ar gyfer cyflwyno wybodaeth a hyrwyddo'r dewisiadau hynny i ddefnyddwyr

Ymgysylltu â'ch cynulleidfa

Ni fydd un dull cyfathrebu yn addas i bawb. Cadwch eich cynulleidfa ar flaen eich meddwl bob amser ac ystyriwch pa sianeli y maen nhw'n debygol o'u defnyddio, pryd fyddant yn debygol o'u defnyddio yn ogystal â math a thôn y neges a fydd yn taro deuddeg gyda nhw.

Dros y ffôn

Dylech bob amser ddyfynnu'r 'prif' rif a ffefrir a chroesawu galwadau drwy:

- **Typetalk** (mae'n darparu cyswllt rhwng unrhyw ddefnyddiwr ffôn testun a rhywun sy'n clywed)
- Rhif **minicom** (dyfais teipiatur yw'r gwasanaeth hwn ar gyfer cyfathrebu rhwng pobl fyddar, trwm eu clyw, pobl â nam ar eu lleferydd a/neu pobl sy'n clywed)

Wyneb yn wyneb neu'n ysgrifenedig

Cofiwch nodi eich cyfeiriad llawn a'ch cod post fel y gall pobl ymweld â chi'n hawdd. Nodwch eich oriau cyhoeddus arferol, ac os oes modd gwneud apwyntiadau y tu allan i'r oriau hyn. Os ydych yn annog ymwelwyr, gwnewch yn siŵr bod eich derbynfeydd yn gwbl hygyrch.

E-bost

Dylech annog pobl i gysylltu â chi drwy e-bost ond ystyriwch ddefnyddio e-bost cyffredinol y mae mwy nag un person yn ei ddefnyddio ar gyfer ymholiadau cyffredinol, yn hytrach nag unigolyn penodol, i wneud yn siŵr nad oes oedi gydag ymatebion pan fydd rhywun yn brysur neu ar wyliau.

Dylai eich gwefan hefyd ddangos eich manylion cyswllt llawn yn ogystal â darparu ffurflenni cyswllt a hyperddolenni e-bost i'w gwneud mor hawdd â phosibl i'ch defnyddiwr gysylltu â ni.

Ffacs

Mae rhai defnyddwyr yn dal i ffafrio ffacs ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer dychwelyd dogfennau y mae angen llofnod arnynt, er bod llofnodion electronig gyda darparwyr fel DocuSign, SignNow neu PandaDoc yn dod yn fwy a mwy poblogaidd.

Cyfathrebu digidol: gwefan / cylchlythyrau

Efallai y bydd gan bob un o'ch defnyddwyr anghenion hygyrchedd ar un adeg yn eu bywyd. Bydd dylunio cynnwys mewn ffordd sy'n eu helpu i gael gafael arno yn sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio.

Yn y DU, mae gan 1 o bob 5 o bobl anabledd - gallai hyn fod yn anabledd gweledol, clyw, symud (sy'n effeithio ar symudiadau manwl) neu wybyddol (sy'n effeithio ar gof a meddwl).

Mae Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCS) wedi nodi'r enghreifftiau canlynol:

Gallu	Parhaol	Dros dro	Sefyllfaol
Golwg	Amrantiad	Cataractau	Llid yn y llygaid
Clyw	Nam ar y clyw	Haint yn y glust	Mewn caffi swnllyd
Motor	Clefyd Parkinson	Braich mewn plastr	Ar drên sy'n symud
Gwybyddol	Problemau gyda'r cof	Sgil-ffeithiau meddyginiaeth	Sefyllfaoedd llawn straen

Sicrhau hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf

Dylech sicrhau bod eich cynnwys yn hygyrch o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn golygu bod angen i chi ddechrau meddwl am sut y gallai defnyddwyr gael mynediad at eich gwasanaeth a'i ddefnyddio cyn i chi ddylunio neu adeiladu unrhyw beth.

Darllenwyr sgrin

Gall pobl â nam ar eu golwg ddefnyddio darllenwyr sgrin. Math o feddalwedd yw hwn a fydd yn darllen cynnwys gwefan neu ddogfen yn uchel ac yn disgrifio'r hyn sydd ar y sgrin i helpu defnyddwyr i lywio.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o gyfyngiadau meddalwedd fel hyn er mwyn osgoi unrhyw broblemau posibl i bobl. Nid yw darllenwyr sgrin yn gallu dehongli cynnwys llun felly lle defnyddir llun dylid darparu testun amgen neu dagiau "alt" sy'n disgrifio beth yw'r llun.

Ymateb ar gyfryngau cymdeithasol

Cofiwch fod eich sianeli cyfryngau cymdeithasol yn gallu gwneud mwy na dim ond darparu gwybodaeth – mae'n fforwm gwych ar gyfer sgysiau dwy ffordd. Efallai y bydd eich cynulleidfa'n dewis cysylltu â chi drwy'r sianeli hyn yn hytrach na chael y sgwrs yn rhywle arall.

Mae'r sianeli hyn yn gyfle i ddangos i'ch cynulleidfa eich bod yn gwranddo, felly mae monitro ac ymateb i ymholiadau yn bwysig. Yn dibynnu ar y sianel, gall y fformat ar gyfer sgysiau fod yn fwy anffurfiol na thrwy'r dulliau traddodiadol y soniwyd amdanynt eisoes.

Pan fyddwch yn wynebu ymholiadau anodd gan aelod anniddig o'r gynulleidfa, mae bob amser yn well parhau'n gadarnhaol ar y sianel a symud y sgwrs all-lein yn gyflym drwy ofyn a allwch gysylltu ag ef yn uniongyrchol.

Ysgrifennu negeseuon cyfryngau cymdeithasol hygyrch

Wrth ddrafftio postadau cymdeithasol hygyrch, mae'n bwysig eich bod yn ystyried y pwyntiau canlynol:

- Sicrhau bod yr iaith yn berthnasol i'r gynulleidfa darged. Osgoi jargon a allai ddrysu'r gynulleidfa ac osgoi acronymau lle bo hynny'n bosibl
- Cadw at 25 gair y frawddeg ac osgoi darnau mawr o destun
- Defnyddio toriadau llinell i greu gofod
- Osgoi testunau trwm, italig neu briflythrennau yn eich post
- Cyfyngu emojis i 2-3 y post ac osgoi ailadrodd yr un emojis ar ôl ei gilydd
- Dylai hashnodau ddefnyddio priflythyren ar ddechrau geiriau newydd, er enghraifft #WythnoslechyddMeddwl
- Dylech osgoi defnyddio mwy nag un hashnod fesul post
- Defnyddio dolenni llawn yn hytrach na dolenni byrrach lle bo modd. Os byddwch yn defnyddio dolenni byrrach, mae Bitly yn olrhain dadansoddeg a pherfformiad ac mae hefyd yn caniatáu mwy o nodau mewn postadau.

Dylunio asedau hygyrch

Wrth greu asedau i'w defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol, mae'n bwysig eich bod yn ystyried y pwyntiau canlynol:

- Peidiwch â defnyddio lliw i gyfleu neges allweddol ar wahân (**er enghraifft i ddisgrifio gweithred**)
- Peidiwch â defnyddio lliw ar wahân i wahaniaethu rhwng gwybodaeth mewn siartiau a thablau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyhoeddi'r data hefyd.
- Dylech osgoi lliwiau golau ar gefndiroedd golau neu wyn (**a lliwiau tywyll ar gefndiroedd tywyll**)
- Mae cyferbyniad isel yn anodd i lawer o bobl ei ddarllen. Defnyddiwch y gwiriwr cyferbyniad lliw i wirio'r gwrthgyferbyniad rhwng eich cefndir, testun ac elfennau eraill - dylai fod ganddo gymhareb isaf o 4:5:1
- Ystyriwch ddefnyddio palet llai o liwiau neu gwiriwch liwiau sy'n torri ar draws ei gilydd fesul un wrth ddefnyddio mwy na 3
- Gall graddiant fod yn ddryslyd neu dynnu sylw – defnyddiwch liwiau bloc yn lle hynny.

Ar gyfer ffontiau:

- Dylech osgoi defnyddio ffont trwm, italig neu gymhleth a all fod yn anodd eu darllen
- Peidiwch â defnyddio meintiau ffont bach i geisio llenwi cynnwys ar graffeg cyfryngau cymdeithasol fel ateb i ormod o gopi. Yn lle hynny, dylech herio'r briff i weld a ellir symleiddio'r wybodaeth a'r neges.
- Dylech leihau'r defnydd o destun mewn graffeg gan ddefnyddio arfer gorau safonol ar gyfer maint ffont ac aliniad
- Peidiwch ag unioni testun – gwnewch yn siŵr bod testun wedi'i unioni ar y chwith, yn unol â'r Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys ar y We (**WCAG 2.01**) a'i fod yn gwneud pethau'n gliriach i bobl ag anableddau gwybyddol
- Gall elfen weledol sy'n defnyddio llai o eiriau gyda ffontiau mwy dynnu mwy o sylw mewn crynodeb cymdeithasol ac felly gael mwy o effaith.



Dolen Allanol

Gellir cael rhagor o wybodaeth am wneud cynnwys yn fwy hygyrch yn llawlyfr gwasanaeth Llywodraeth y DU:

[Llawlyfr Gwasanaeth Llywodraeth y DU \(Saesneg yn unig\)](#)

Ar gyfer lluniau, gifs, animeiddiadau a fideos:

- Defnyddiwch isdeitlau a chapsiynau caeedig ar fideograffeg bob amser i sicrhau bod pobl yn gallu clywed a gweld cyd-destun y fideo os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Dylech gael llais ar fideo a chynnwys wedi'i animeiddio, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu gweld a chlywed y post os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Dylech osgoi symud lluniau y tu ôl i destun a all fod yn heriol i ddefnyddwyr darllenwyr sgrin
- Dylai fod o leiaf 20db o wahaniaeth rhwng cerddoriaeth gefndir a throslais ar gynnwys fideo
- Mae platfformau cyfryngau cymdeithasol fel YouTube yn eich galluogi i ychwanegu isdeitlau a chapsiynau yn hawdd am ddim, ond dylid eu gwirio bob amser am wallau
- Dylech ddefnyddio'r arfer gorau ar feintiau ffont a chyferbyniad lliw fel y disgrifir uchod wrth ddylunio capsionau fideo
- Gwiriwch amseroedd pontio ar gifs, fideos ac animeiddiadau i sicrhau y gall y gynulleidfa ddilyn y cynnwys. Fel canllaw, mae unigolyn cyffredin yn darllen tua 200-250 o eiriau y funud, ond byddwch yn ymwybodol o'ch cynulleidfa a byddwch yn ymwybodol bod rhai namau gwybyddol yn golygu cyfradd ddealltwriaeth is.
- Peidiwch â defnyddio nifer o golofnau i rannu gwybodaeth hanfodol mewn graffeg bach. A chofiwch, nid yw defnyddio pwyntiau bwled yn ateb y broblem hon.
- Dylech osgoi lluniau sy'n fflachio gan y gall hynny achosi trawiadau. Ni ddylai unrhyw beth fflachio mwy na 3 gwaith yr eiliad.
- Defnyddiwch elfennau eiconograffeg, darluniau neu luniau "hawdd eu darllen" i gyfleu negeseuon pwysig i'r rhai sy'n anllythrennog neu sydd angen cymorth gyda'r iaith sy'n cael ei siarad.



Dolen Allanol

Gellir gweld enghraifft o ddogfen ac asedau Hawdd eu darllen ar wefan Llywodraeth y DU

[Taflen wybodaeth ar Goronafeirws: Hawdd eu darllen \(Saesneg yn unig\)](#)

Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er nad oes yn rhaid cyfieithu pob gweithgaredd yn ei union gyd-destun, dylid anelu at gydbwysedd cyfartal o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith yn agored i weithgarwch.

Ieithoedd ar wahân i Gymraeg/Saesneg

Ystyriwch ddehongli dros y ffôn, sy'n eich galluogi i gael mynediad at wasanaeth cyfieithu dros y ffôn tra mae eich ymholwyr ar y lein.

Dehongli wyneb yn wyneb - os oes gennych apwyntiad i drafod mater penodol efallai y bydd angen i chi drefnu bod cyfieithydd yn bresennol.

Cyfieithiadau

Ystyriwch wybodaeth y mae eich mudiad yn ei dosbarthu a ph'un ai a fyddai'n ddefnyddiol neu'n fuddiol i'r wybodaeth ysgrifenedig hon gael ei chyfieithu a'i chyflwyno mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg. Ystyriwch gyfieithiadau ar y pryd o'r Gymraeg ar gyfer digwyddiadau mwy.

Fformatau

Print bras

Dylid darparu llythyrau a gwybodaeth safonol ym maint pwynt 12 o leiaf. Fodd bynnag, dylech bob amser gynnig darparu'r wybodaeth mewn maint pwynt mwy na hyn os bydd rhywun yn gofyn am hynny.

Braille

Cynigiwch eich gwybodaeth mewn Braille. Gallai hyn gymryd tua phytrefnos i'w drefnu. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r RNIB. Sylwch y gall eich gwybodaeth gael ei chyfieithu i Braille Cymraeg neu Braille Saesneg.

Tâp sain

Gellir sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar dâp ac unwaith eto gallai hyn gymryd tua phythefnos. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag RNIB neu Gyngor Cymru i'r Deillion.

Arwyddwyr

Efallai y bydd angen i chi ddarparu iaith Arwyddion Prydain mewn cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae angen trefnu hyn o leiaf bythefnos ymlaen llaw hefyd.



Gwybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â RNID neu Gyngor Cymru i Bobl Fyddar.

Hawdd ei ddeall

Mae Hawdd ei ddeall yn wybodaeth hygyrch o ansawdd uchel sydd wedi'i hanelu at bobl ag anabledd dysgu.



Dolen Allanol

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn cynnig gwasanaeth Hawdd ei ddeall a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ei wasanaeth a'r hyn y mae'n ei wneud yma:

[Gwefan Hawdd ei Ddarllen](#)

Gwybodaeth Bellach

Digwyddiadau RNIB Cymru

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall

Ffôn: 029 2045 0440

Ffacs: 029 2044 9550

CymruEvents@rnib.org.uk

RNID

Gweithredu dros Golli Clyw

Ffôn: 0808 808 0123

Ffôn testun: 0808 808 9000

informationline@rnid.org.uk

Cyngor Cymru i'r Deillion

Ffôn: 029 20473954

richard@wcb-ccd.org.uk

www.wcb-ccd.org.uk

Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

Ffôn: 01443 485 687

Ffacs: 01443 408 555

Ffôn testun: 01443 485 686

mail@wcdeaf.org.uk

www.wcdeaf.org.uk

Comisiynydd y Gymraeg

Ffôn: 0845 6033 221

post@welshlanguagecommissioner.org

www.welshlanguagecommissioner.org

Hawdd ei Ddarllen

Anabledd Dysgu Cymru

Ffôn: 029 2068 1160

easyread@ldw.org.uk

<https://www.ldw.org.uk/cy/hawdd-ei-ddeall-cymru/>



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.